



Energy Learning Network
Rhwydwaith Addysg Ynni

Partneriaeth i sicrhau cyllid

Cefnogaeth awdurdodau lleol i ynni cymunedol

Mae nifer o ffyrdd y gall awdurdodau lleol gefnogi ynni cymunedol, er enghraifft drwy gynnig adnoddau, capasiti, mynediad at safleoedd cynhyrchu ac at rwydweithiau rhanddeiliaid.

Gallent hefyd fod yn gwsmer ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan ynni cymunedol. Yn gyfnewid, gall grwpiau ynni cymunedol helpu cynghorau i gyrraedd eu targedau sero net, adeiladu cyfoeth cymunedol a nodau cydraddoldeb. Mae partneriaethau o'r fath yn hyrwyddo penderfyniadau mwy cynhwysol a chanlyniadau teg, gan ddatblygu atebion lleol sy'n cael eu siapio gan flaenoriaethau ac uchelgeisiau'r gymuned.

Mae'r Rhwydwaith Addysg Ynni yn cynhyrchu cyfres o astudiaethau achos i ddangos sut mae cynghorau gwahanol yn cefnogi ynni cymunedol a'r gwersi a ddysgwyd gan bob un.

Gorffennaf 2025 – Awdur: Ashden, Emma Jones

Cyngor Dosbarth Three Rivers ac Ynni Cymunedol Grand Union

Mae Cyngor Dosbarth Three Rivers (TRDC) a Grand Union Commercial Energy (GUCE) wedi datblygu dull partneriaeth o gyflawni gweithredu hinsawdd yn lleol sy'n gwneud y defnydd gorau o gryfderau pob sefydliad, gan ddangos model effeithiol ar gyfer cydweithrediadau tebyg ledled y DU.

Mae GUCE yn gymdeithas budd cymunedol, a sefydlwyd i wella gwytnwch cymunedol lleol yn wyneb costau ynni cynyddol a newid yn yr hinsawdd - gan alluogi'r trigolion lleol i wneud rhywbeth go iawn a pharhaol am newid yn yr hinsawdd. Ym mis Ebrill 2023, roedd GUCE yn rhan o gais buddugol Cyngor Dosbarth Three Rivers am grant Dilynwyd Cyflym (Fast Followers) trwy Innovate UK. Mae'r grant yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhaglen waith i nodi a helpu i oresgyn y rhwystrau nad oedd yn rhai technegol sy'n rhwystro cynnydd ar sero net yn lleol. Roedd dwy o'r ffrydiau gwaith yn ymwneud â GUCE:

Strydoedd Trawsnewid (project 'pŵer i lawr' – annog defnydd mwy effeithlon o ynni). Mae Strydoedd Trawsnewid yn cynnwys ymgysylltu â chymdogion, strydoedd a chymunedau sy'n cefnogi ei gilydd i arbed arian a lleihau eu defnydd a'u gwastraff. Mae'r grant Dilynwyd Cyflym wedi caniatáu i Three Rivers dreialu dull Strydoedd Trawsnewid at newid ymddygiad cynaliadwy, sydd wedi profi'n effeithiol mewn rhannau eraill o'r wlad. Mae'r project yn cynnwys gweithdai hwyluso GUCE ar gyfer gwahanol grwpiau cymdogaeth, sy'n cynnwys sesiwn ragarweiniol ac yna gweithdai ar ynni, dŵr, bwyd, teithio, adnoddau, a bioamrywiaeth. Cynigir arolygon delweddu thermol am ddim hefyd i helpu cyfranogwyr i ddelweddu ardaloedd o golli gwres yn eu cartrefi a'u hannog i ymgymryd ag ôl-osod. Fel rhan o'r gweithdai hyn, ysbrydolodd GUCE hefyd ddeiliaid tai i fanteisio ar y gwasanaeth cyngor am ddim peilot 'Ôl-osod Siop Un Stop' sy'n cael ei ddarparu yn yr Ardal (o dan ffrwd waith wahanol o'r rhaglen Dilynwyd Cyflym) gan yr elusen The National Energy Foundation.

Ynni cymunedol ar adeiladau lleol (prosiect 'pŵer i fyny' sy'n annog cynhyrchu ynni adnewyddadwy). Mae'r ffrwd waith hon yn hyrwyddo opsiynau ôl-osod a ariennir gan y gymuned ar gyfer adeiladau cymunedol lleol yn yr ardal. Mae GUCE yn ymgysylltu ag ysgolion, canolfannau hamdden ac adeiladau cymunedol lleol eraill ynghylch sut y gall ynni cymunedol eu cefnogi i newid i ynni adnewyddadwy ar gyfer eu cyflenwad ynni heb y gost flaenllaw uchel. Y nod yw dangos iddyn nhw sut gall atebion ynni cymunedol gynnig diogelwch biliau ynni hirdymor tra'n lleihau ôl troed carbon eu sefydliad.



Pa effaith a gafodd?

Strydoedd Trawsnewid

At the time of writing, two groups of neighbours have completed the Transition Streets programme with several others in progress. GUCE will be collecting evaluation information for the project by asking participants to complete a standard survey before and after the programme.

Ar adeg ysgrifennu, mae dau grŵp o gymdogion wedi cwblhau'r rhaglen Strydoedd Trawsnewid gyda sawl un arall ar y gweill. Bydd GUCE yn casglu gwybodaeth werthuso ar gyfer y project trwy ofyn i gyfranogwyr gwblhau arolwg safonol cyn ac ar ôl y rhaglen.

Y prif adborth gan weithdai yw bod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi dysgu am bethau syml y gallan nhw eu gwneud i wneud eu bywydau yn haws ac arbed arian tra hefyd yn lleihau eu hól troed carbon. Maen nhw hefyd yn gwerthfawrogi'r cysylltiad cymunedol a dod i adnabod eu cymdogion.



Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i allu dweud, ond mae canfyddiadau'r grŵp cyntaf yn dangos:

- Bod chwech aelod wedi cael arolwg asesu ôl-osod am ddim wedi'i gwblhau, gan arwain at gyfranogwyr yn gosod ystod o fesurau gan gynnwys thermostatau clyfar, goleuadau LED, inswleiddio llofft, drafftio ar gyfer ffenestri a drysau, ffoil rheiddiadur a ffilmiau ffenestri inswleiddio.
- Mae dau gyfranogwr wedi gosod inswleiddio waliau ceudod, gyda thraean yn bwriadu gwneud hynny, a rhagwelir y bydd yn arbed £140 bob blwyddyn iddynt ar eu bil ynni a lleihau CO2 dros 385kg y flwyddyn. Mae un cyfranogwr wedi inswleiddio eu to gwastad a gwella awyru yn eu ystafell ymolchi.
- Mae aelwydydd hefyd wedi addo rhannu bwyd dros ben gyda'i gilydd a'r gymuned ehangach (trwy'r ap rhannu bwyd Olio).
- Cafwyd ymrwymïadau hefyd i leihau'r defnydd o ddŵr trwy wneud newidiadau syml yn y cartref – ac i rannu dŵr glaw trwy alluogi cartrefi heb y potensial hwnnw i gael mynediad at ddŵr eu cymdogion'.

Ynni cymunedol ar adeiladau lleol

Nod y project hwn yw cael gwared ar y rhwystrau sydd heb fod yn rhai technegol i osod ynni adnewyddadwy a ariennir gan y gymuned ar ysgolion ac adeiladau cymunedol. Mae'r project hwn yn dal i fod yn ei ddyddiau cynnar ac mae wedi wynebu nifer o heriau, yn enwedig ynghylch rhoi solar ar ysgolion, a nodir isod.



Beth sy'n gwneud iddo weithio?

Mae GUCE a TRDC yn dweud bod cael partneriaeth wirioneddol, sy'n seiliedig ar barch a chydaddoldeb, wedi bod yn allweddol i lwyddiant eu gwaith ar y cyd.

- Mae TRDC yn elwa o arbenigedd a chyrhaeddiad cymunedol GUCE, ac o'r capasiti ychwanegol mae'n ei roi i'r cyngor.
- Mae GUCE yn elwa o fynediad at gyllid a mwy o gyfreithlondeb. Roedd ynni cymunedol yn gysyniad eithaf newydd i'r Cyngor dair blynedd yn ôl ac roedden nhw eisiau dod â phartner gydag arbenigedd yn y maes hwn. GUCE oedd y partner delfrydol.

Tan yn ddiweddar, dim ond dau berson oedd yn nhîm newid hinsawdd y Cyngor, felly roedd eu gallu i ymgysylltu â'r gymuned yn gyfyngedig iawn.

Mae GUCE yn adrodd bod dull partneriaeth TRDC yn wahanol iawn i ddull cyngorau eraill maen nhw wedi gweithio â nhw, a all edrych ar bartner sy'n cynnig cymorth allanol, fel GUCE, fel isgontractwr yn hytrach na phartner cyfartal. Er enghraifft, yn hytrach na TRDC yn sicrhau cyllid ac yna isgontractio gwaith i GUCE, fe wnaethon nhw gynnwys GUCE yn natblygiad y cais

“Mae gan TRDC swyddogion anhygoel sy'n ei ddeall, maen nhw'n deall egni cymunedol. Maen nhw'n gofyn ein barn ar ba ddull gweithredu ddylen nhw ei gymryd – mae'n bartneriaeth gydweithredol, sy'n seiliedig ar barch a chydaddoldeb. Ry'n ni'n teimlo eu bod nhw'n gwrando'n wirioneddol ar ein llais. Ry'n ni wedi gweithio i gynghorau eraill lle mae'r cyfan ar hyd braich go iawn.”

Sarah Burgess, Swyddog Datblygu GUCE

“Gall cynghorau gael trafferth gydag ymgysylltu â'r gymuned – mae'n wych cael partner arbenigol fel GUCE sydd wedi'i ymgorffori yn y gymuned. Mae hyn yn rhoi capasiti ychwanegol i'r cyngor i'n helpu i gyrraedd ein targedau sero net. Rydyn ni'n teimlo'n lwcus iawn i gael GUCE.”

Ellie Nathan, Rheolwr Prosiect Arloesi Sero Net, TRDC

Ar gyfer awdurdodau lleol: partner gweithredu allweddol

Trwy nodi GUCE fel partner a dod â nhw at y bwrdd gyda rhwydweithiau ehangach y cyngor, mae GUCE wedi cael hygyrdded - rhywbeth sy'n agor cyfleoedd ehangach i'r sefydliad. Er enghraifft, o ganlyniad i gyflwyniadau gan TRDC, gwahoddwyd GUCE i roi mewnbwn ynglŷn â datblygu strategaeth ôl-osod y sir, gan ddod â safbwynt ynni cymunedol i ôl-osod, a helpu i greu strategaeth mwy cyfannol /cymunedol sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n wybodus (a gobeithio yn fwy gweithredadwy).

O ran cyngor i gynghorau eraill, mae Sarah o GUCE yn awgrymu y dylai cynghorau drin eu grwpiau ynni cymunedol fel partneriaid go iawn, yn hytrach nag isgontractwyr. Bydd hyn yn helpu i alluogi datblygu mentrau gwybodus a fydd yn darparu'r budd mwyaf i'r gymuned leol. Fel man cychwyn, gallai hyn gynnwys y cyngor yn cyfarfod â grwpiau ynni cymunedol lleol i nodi meysydd y mae blaenoriaethau'r cyngor yn gorgyffwrdd â'r grwpiau, a'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu strategaethau a chynigion ariannu.

“Mae hwn wedi newid popeth i ni fod yn rhan o Gyngor Dosbarth Three Rivers. Mae wedi helpu i roi'r hygyrdded hwnnw i ni.”

Sarah Burgess, Swyddog Datblygu GUCE

Pa adnoddau oedd eu hangen a sut cafodd ei ariannu?

Mae GUCE yn derbyn £29,000 o gyllid o'r grant Dilynwyd Cyflym dros ddwy flynedd. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i dalu am staffio i gynnal gweithdai Strydoedd Trawsnewid ac ymgymryd ag ymgysylltu â'r ffrwd waith ynni cymunedol ar adeiladau lleol, gyda thua £1,500 i gwmpasu deunyddiau.

O ochr y cyngor, mae swyddog llawn amser yn gweithio ar y rhaglen, sy'n cwmpasu cyfanswm o bum ffrwd waith. Mae'r adnodd hwn a ariannwyd, wedi rhoi gallu iddyn nhw ymgysylltu â GUCE. Mae'n arwyddocaol bod timau eraill o fewn y cyngor – e.e. y tîm cyfathrebu a'r timau cyfreithiol – wedi rhoi cefnogaeth sy'n cyfrannu at lwyddiant y prosiect.

Unrhyw rwystrau?

Yn hanesyddol, mae'r Cyngor wedi cael trafferth gydag ymgysylltiad cymunedol ar gynaliadwyedd ac ni fyddai'n gallu cyflawni project fel Strydoedd Trawsnewid eu hunain. Mae dod â GUCE i mewn i arwain yr ymgysylltiad cymunedol wedi bod yn effeithiol iawn – maen nhw'n adnabyddus ac yn uchel eu parch yn y gymuned ac mae ganddyn nhw rwydwaith gwych o sefydliadau lleol y maen nhw'n gweithio gyda nhw.

Ar elfen 'Pweri i Fyny' y prosiect, mae'r diffyg polisi presennol ledled y sir ar solar a ariennir gan ynni cymunedol ar gyfer ysgolion a gynhelir, wedi'i nodi fel rhwystr allweddol i ysgogi cyllid cymunedol ar gyfer ôl-osod ysgolion. Fodd bynnag, mae tîm y prosiect yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod perthnasol i helpu i sicrhau polisi cadarnhaol y gall pob ysgol yn y sir elwa ohono.

Gwersi a ddysgwyd

Mae project fel hyn yn gofyn am lefel dda o ymddiriedaeth rhwng y cyngor a'r grŵp ynni cymunedol. Mae'r Cyngor yn awgrymu ei bod yn werth buddsoddi amser i ddod i adnabod grwpiau cymunedol eich ardal – gan gynnwys grwpiau ynni cymunedol, ond hefyd rhai eraill fel banciau bwyd.

Mae cyllid yn hanfodol. Mae GUCE, fel y rhan fwyaf o grwpiau ynni cymunedol, yn dibynnu'n bennaf ar wirfoddolwyr. Er mwyn cynyddu eu huchelgais, mae angen cyllid arnyn nhw. Dylai awdurdodau lleol sydd eisiau help gan eu grwpiau ynni cymunedol naill ai ddarparu'r cyllid hwnnw'n uniongyrchol neu, fel yn achos partneriaeth GUCE/TRDC, weithio gyda nhw i sicrhau cyllid allanol.

“Mae cymaint o grwpiau cymunedol gyda phobl angerddol, wybodus sy'n gallu helpu'r cyngor i gyflawni ei amcanion. Gwnewch y mwyaf ohonyn nhw. Ac yn benodol, edrychwch allan am y grwpiau cymunedol y mae pobl yn eich pwyntio atynt – mae 'na reswm pam mae pobl yn eu hawgrymu.”

Ellie Nathan, Rheolwr Prosiect Arloesi Sero Net, TRDC

Gwybodaeth ddefnyddiol

Cyngor Dosbarth Three Rivers District Council – climate.change@threerivers.gov.uk

- GUCE – sarah.burgess@guce.org.uk
- **Taflen** neu **lawlyfr** Strydoedd Trawsnewid
- Hanes Strydoedd Trawsnewid: Transition Streets - **Transition Town Totnes**
- I ddarganfod mwy ynglŷn â grwpiau ynni cymunedol yn eich ardal, ceisiwch ofyn Community Energy England

Cydnabyddiaethau

Rydym yn ddiolchgar iawn i Ellie Nathan (Cyngor Dosbarth Three Rivers) a Sarah Burgess (Grand Union Community Energy) am roi eu hamser i ni i'n helpu i lunio yr astudiaeth achos hon at ei gilydd.

Rhwydwaith Addysg Ynni

Mae'r rhwydwaith yn gydweithrediad rhwng yr elusen datrysiadau ynni Ashden, y Centre for Sustainable Energy, a chyrrff ynni cymunedol blaengar ym mhob un o genhedloedd y DG: Community Energy England, Community Energy Scotland, Community Energy Wales ac Action Renewables Gogledd Iwerddon.

Ymwelwch â gwefan eich sefydliad aelodaeth ynni cymunedol lleol am ragor o adnoddau i'ch helpu ar eich taith ynni cymunedol. Mae gan y Centre for Sustainable Energy hefyd lu o adnoddau a chanllawiau a fydd yn eich helpu ble bynnag yr ydych yn y DG.



Gwnaed yn bosibl drwy bedair blynedd o gyllid, sef cyfanswm o £1.5 miliwn, oddi wrth Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Daw'r grant hwn o'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd, ymrwymiad o £100 miliwn dros 10 mlynedd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gefnogi cymunedau ledled y DG i weithredu ar newid hinsawdd ac ennyn ymgyfraniad mwy o bobl mewn gweithredu ar yr hinsawdd. Mae hyn yn llunio rhan o un o bedair cenhadaeth allweddol y cyllidydd yn ei strategaeth ar gyfer 2030, 'Mae'n dechrau gyda chymuned' – cefnogi cymunedau i fod yn amgylcheddol gynaliadwy.



www.ashden.org/rhwydwaith-addysg-ynni

Holl cynnwys © 2025 Rhwydwaith Addysg Ynni.



Energy Learning Network
Rhwydwaith Addysg Ynni